# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Mai 18, 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffon Cyswllt:** | **32335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Prentisiaethau A Cynllun Rheolwyr Ac Arbenigwyr Yfory** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cabinet yn parhau i gefnogi y Cynllun Prentisiaethau yn ogystal a'r Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory drwy briodoli cyfanswm o £1.1m ar gyfer ariannu y cynlluniau i'w dosrannu yn unol a'r adroddiad.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 A oes cefnogaeth i gyllido'r Cynllun Prentisiaethau dros y dair blynedd nesaf?

2.2 A oes cefnogaeth i ganiatáu cyllid ychwanegol er mwyn parhau i ddenu graddedigion fel rheolwyr ac arbenigwyr yfory?

### 3. CEFNDIR

#### CYNLLUN PRENTISIAETHAU

Ar 22 Ionawr 2019, fe gymeradwyodd y Cabinet gais i sefydlu Cynllun Prentisiaethau gan ddyrannu cronfa o £300,000 i gyfrannu tuag at recriwtio hyd at 20 o brentisiaid i'r Cyngor.

Pwrpas y Cynllun Prentisiaethau yw hyrwyddo prentisiaethau, recriwtio a prentisiaid a sicrhau ansawdd y prentisiaethau rheini ar draws adrannau'r Cyngor. Mae'r cynllun yn rhan annatod o gynllunio'r gweithlu ac yn cael ei gydnabod yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22 fel rhan o'r flaenoriaeth o gynllunio'r gweithlu.

Yn dilyn yr ymgyrch recriwtio cyntaf yn 2019, cafodd 17 o brentisiaid eu penodi mewn 10 maes gwahanol (Atodiad 1).

Mae un ar ddeg o ferched a chwech o ddynion wedi eu recriwtio. Yr amrediad oed yw - dau brentis o dan 18, un ar ddeg prentis rhwng 18 i 24 a phedwar prentis dros 25.

Erbyn hyn, mae naw prentis wedi derbyn swydd o fewn y Cyngor ond yn parhau i gwblhau eu cymwysterau. Mae un prentis wedi gadael y cynllun yn wirfoddol.

Mae'r niferoedd uchod yn benodiadau mewn meysydd blaenoriaeth gan gynnwys prentisiaethau gradd yn y maes Technoleg Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r maes peirianneg sifil, ble rydym wedi recriwtio dwy ferch.

Ar gyfer 2021, bydd y Cyngor yn recriwtio 18 prentis ychwanegol mewn 9 maes (Atodiad 2). Bydd y rhain hefyd yn cael eu cyllido yn rhannol gan y £300,000 gwreiddiol a ddyrannwyd yn 2019. Golyga hyn y bydd y Cyngor wedi recriwtio 35 o brentisiaid efo'r buddsoddiad gafodd ei wneud yn 2019. Mae'r niferoedd yn llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Y prif reswm dros hyn yw bod gwasanaethau ar draws y Cyngor wedi gallu cyfrannu symiau uwch na'r disgwyl tuag at y cyflog ac hynny am resymau amrywiol e.e. tanwariant blynyddol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu cyflog teg i'n prentisiaid, sy'n gyfystyr â'r isafswm cyflog cenedlaethol (Atodiad 3). Mae amcangyfrif cost o gyflogi prentis oddeutu £35,000 dros gyfnod llawn prentisiaeth unigol ac o ganlyniad gellir datgan bod y buddsoddiad o £300,000 wedi bod yn sbardun i fuddsoddiad gwirioneddol o dros £1 miliwn ar y sail bod 35 prentisiaeth wedi'u sefydlu .

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi buddsoddi arian ychwanegol i'r hyn a ddyfarnwyd hefyd er mwyn sicrhau adnodd digonol i gefnogi'r prentisiaid yn ogystal a gweinyddu'r Cynllun. Golyga hyn oll bod pob ceiniog o'r £300,000 a ddyrannwyd wedi mynd i gyflogi prentisiaid ers lawnsiad y Cynllun yn 2019.

Fel y byddwch yn ymwybodol, cyflwynwyd yr Ardoll Prentisiaethau yn Ebrill 2017 er mwyn annog cyflogwyr a busnesau i fuddsoddi mewn prentisiaethau. Mae pob cyflogwr o fewn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector sydd â bil cyflog o fwy na £3 miliwn y flwyddyn yn talu'r ardoll sydd yn cyfateb a 0.5% o gyfanswm bil cyflog blynyddol y Cyngor.

Mi fydd y Cyngor yn cyfrannu o gwmpas £700,000 i'r ardoll prentisiaethau ar gyfer 2021/22. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfraniad o'r ardoll tuag at gostau cyflogi prentisiaid ond mae'r ardoll yn rhoi mynediad at gostau'r cymwysterau a'r hyfforddiant canlynol:

**Prentis** - Swyddi newydd sydd wedi eu creu yn benodol ar gyfer bod yn brentis.

**Dysgu wrth weithio** - Gall yr ardoll ariannu elfennau datblygol swyddi cyfredol.

Yn nyddiau cynnar yr ardoll, roedd pryder nad oedd y Cyngor yn gallu ad-ennill cost yr ardoll trwy hyfforddiant a drefnwyd. Fodd bynnag yn 2019/20, ple cyfrannodd y Cyngor oddeutu £685,000 i'r Ardoll Prentisiaethau, amcangyfrifir bod gwerth swm o £680,000 wedi'i ad-ennill yn sgil cyflwyniad y Cynllun Prentisiaethau a'r hyfforddiant mewn swydd a drefnwyd. Er na fydd y swm gaiff ei hadennill yr un mor uchel ar gyfer 2020/21, rydym yn ffyddiog y gallwn ad-hawlio symiau a fyddai'n o leiaf cyfateb a'r ardoll i'r dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgyrch hyrwyddo llwyddiannus drwy nifer o ddulliau gwahanol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, erthyglau yn y papurau lleol, wythnos brentisiaethau, paneli prentisiaid a'r ffair prentisiaethau. Yn ystod y cyfnod mae nifer o bobol a grwpiau dylanwadol wedi dangos diddordeb a gwerthfawrogiad o'r Cynllun gan gynnwys y Cabinet, aelod seneddol, Penaethiaid Adran, rheolwyr lleoliad a sefydliadau addysg.

Mae'r adborth gan y rheolwyr a thimau am ein prentisiaid wedi bod yn bositif ac mae'r ymatebion i holiadur a gwblhawyd gan y prentisiaid i asesu eu bodlonrwydd efo'r Cynllun wedi cynnwys disgrifiadau megis "Agoriad llygaid", "Paratoi fi yn dda at swydd", "diddorol, llwyth o brofiadau" a "Heriol".

Er bod diffyg darpariaeth ddwyieithog o ansawdd ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru, yn enwedig ar y lefelau uwch, mae'r Cyngor wedi bod yn flaenllaw yn annog y darparwyr i gynnig y rhan fwyaf o'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyflwyno'r "Datganiad o Uchelgais yr Iaith Gymraeg ar gyfer Prentisiaethau Cyngor Gwynedd" sy'n amlinellu'r disgwyliadau ieithyddol sydd ar y prentis, y Cyngor a'r darparwr. Mae pob darparwr a phrentis wedi arwyddo'r datganiad ac yn ymrwymo i'r disgwyliadau.

**CYNLLUN RHEOLWYR AC ARBENIGWYR YFORY**

Mae'r Cynllun yma yn bodoli yn ei wahanol ffurf ers blynyddoedd lawer ac wedi'i adnabod fel Cynllun Hyfforddeion Proffesiynol cyn ei ail-frandio yn Gynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory yn 2017. Mae'n rhoi cyfle i raddedigion ddatblygu arbenigedd mewn maes allweddol a dod i ddeall mwy am weithio mewn llywodraeth leol. Mae cystadleuaeth frwd yn flynyddol ar gyfer yr ychydig o gyfleoedd a ddarperir.

Fodd bynnag, yn ôl yn 2015, penderfynwyd dileu y gyllideb refeniw ar gyfer cynnal y Cynllun hwn, hynny fel rhan o'r ymdrech gorfforaethol i wireddu arbedion sylweddol. Mae'r Cynllun wedi parhau ers hynny ar sail yr arbedion a gronnwyd oherwydd bod cynifer o'r graddedigion hyn wedi'u penodi i swyddi o fewn y Cyngor cyn i'w cyfnod fel hyfforddeion ddod i ben. Gweler, fel enghraifft, ddadansoddiad yn Atodiad 4 o'r cyfleon a gynigwyd i 14 o raddedigion o dan y Cynllun hwn ers 2017.

Erbyn hyn, mae'r gronfa wrth-gefn wedi gostwng yn sylweddol ac mae'n mynd yn fwy o her yn flynyddol i gynnal y cyfleoedd arbennig yma. Yn bresennol, 'rydym yn hysbysebu 6 cyfle arall fel rhan o'r Cynllun hwn gyda golwg i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau fel hyfforddeion ym mis Gorffennaf eleni. Ni fydd modd cynnig yr un lefel o gyfleoedd i'r dyfodol oni ellir sicrhau buddsoddiad pellach i gynnal y Cynllun.

Mae cost cyfartalog y cyfleon hyn yn fwy costus na'r gost cyfatebol ar gyfer prentisiaid gyda chost cyflogi oddeutu £100,000 yr un dros gyfnod o dair blynedd. Cofier yma eto mai cyfraniad a wneir i gyfanswm y gost ar gyfer y rhan helaethaf o'r hyfforddeion hyn ac felly na fyddai pob hyfforddai yn costio'r swm uchod i'r gronfa ei hun. Gweler dadansoddiad o gost cyflogi un hyfforddai yn Atodiad 5.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

O ystyried llwyddiant y naill gynllun a'r llall a'u cyfraniad, nid yn unig i gynnig cyflogaeth ac hyfforddiant i bobl ifanc lleol ond hefyd i lenwi bylchau yn ein gweithlu fel Cyngor, cyflwynir cais i glustnodi'r symiau a ganlyn er mwyn sicrhau parhad a datblygiad pellach y Cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory;

**Cynllun Prentisiaethau** – swm o **£600,000** dros 3 blynedd a fydd yn anelu i gynnig o leiaf 20 prentisiaeth y flwyddyn dros gyfnod yr ariannu ac yn ein galluogi i ddarparu'r gefnogaeth a'r gweinyddiaeth sydd bellach yn mynd yn gynyddol anodd i'w ddarparu o fewn adnoddau. Byddai hyn oll yn ychwanegol i'r 35 prentisiaeth a grewyd eisoes ac yn ein galluogi i ddatblygu ymhellach drwy weithio mwy gyda busnesau bach, contractwyr lleol a mentrau cymunedol i sefydlu a chefnogi swyddi prentisiaethau newydd.

**Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory** – swm o **£500,000** er mwyn atgyfnerthu'r gronfa fyddai'n sicrhau parhad ein gallu i gynnal rhaglen flynyddol o ddenu graddedigion i ddatblygu sgiliau ac ennill cymhwyster ôl-radd gyda'r Cyngor.

Mae’r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 4 Fawrth eleni, wedi cymeradwyo Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22 sydd yn adnabod “Cynllunio’r Gweithlu” fel un o’i flaenoriaethau. Mae’r Cynllun Prentisiaethau yn ogystal a’r Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory yn cael eu hystyried yn allweddol i’n gallu i wireddu amcanion y flaenoriaeth honno.

Mae’r cynigion hyn yn cael eu cyflwyno yn sgîl trafodaeth efo’r Pennaeth Cyllid a’r Prif Weithredwr ynglŷn a’r ffynhonnell gyllido. Cadarnhawyd fod modd sicrhau y cyllid un-tro angenrheidiol pe byddai aelodau’r Cabinet yn awyddus, ac yn gefnogol, i’r cais am gyfanswm o £1.1 miliwn er mwyn cynnal ac adeiladu ar y llwyddiant sydd wedi’i amlinellu yn yr adroddiad.

Fel nodir yn y rhan ‘Corfforaethol’ o Atodiad 2 i'r adroddiad ‘Alldro Refeniw 2020/21’, sy’n eitem arall ar raglen y cyfarfod hwn, derbyniwyd grantiau penodol sylweddol yn sgîl yr argyfwng Covid-19. Gan fod y Cyngor eisoes wedi ariannu amryw elfennau o’r gwariant mewn ymateb i'r argyfwng, mae rhan o’r derbyniad grant yn rhydd a gellid ymrwymo £1.1m ohono i ariannu'r Cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Pe byddai’r Cabinet yn cymeradwyo rhyddhau’r arian yma i bwrpas parhad y naill gynllun a’r llall, byddai’r cyfleon cyntaf yn cael eu cynnig yn ddiweddarach y flwyddyn hon, o ganlyniad i gwblhau’r penodiadau i'r cyfleon sy’n cael eu hysbysebu yn bresennol, yn ogystal a chaniatáu i'r Cyngor ymestyn y ddarpariaeth bresennol am o leiaf y dair blynedd nesaf.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Y Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda’r awdur i baratoi’r adroddiad yma ac yn cadarnhau’r ffeithiau ariannol ar ddiwedd rhan 4 uchod. Pe byddai’r Cabinet yn blaenoriaethu’r 2 Gynllun, yna gellid ymrwymo £1.1m o’r derbyniad grant i'w ariannu.

**ATODIAD 1 – Rhestr Prentisiaethau Cyfredol Cyngor Gwynedd**

| RHIF | TEITL | ADRAN | LEFEL | PENODIAD |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Prentis Gradd Ddigidol | Cyllid | Gradd (Lefel 6) | 2 |
| 2 | Prentis Peirianneg Sifil | YGC | Prentisiaeth (Lefel 3) | 2 |
| 3 | Prentis Cyswllt Cwsmer a Chofrestru | Cefnogaeth Gorfforaethol | Prentisiaeth (Lefel 3) | 2 |
| 4 | Prentis Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata | Byw'n Iach | Prentisiaeth (Lefel 3) | 1 |
| 5 | Prentis Maes Gofal Oedolion | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Sylfaenol (Lefel 2) | 2 |
| 6 | Prentis Maes Gofal Oedolion Uwch | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Uwch (Lefel 5) | 2 |
| 7 | Prentis Maes Gofal Plant | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Sylfaenol (Lefel 2) | 2 |
| 8 | Prentis Peirianneg Sifil | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Prentisiaeth (Lefel) | 1 |
| 9 | Prentis Gwaith Ieuenctid | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Sylfaenol (Lefel 2) | 1 |
| 10 | Prentis Busnes a Gweinyddiaeth | Cefnogaeth Gorfforaethol | Prentisiaeth (Lefel 3) | 2 |

**ATODIAD 2 – Rhestr Prentisiaethau Newydd 2021**

| RHIF | TEITL | ADRAN | LEFEL | CYTUNDEB | SWYDDI |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Prentis Cyswllt Cwsmer a Chofrestru | Cefnogaeth Gorfforaethol | 3 | 2 | 1 |
| 2 | Prentis Gofal Plant | Plant a Theuluoedd | 3 | 2 | 2 |
| 3 | Prentis Maes Gofal Oedolion (Gogledd) | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2 | 2 | 1 |
| 4 | Prentis Maes Gofal Oedolion (De) | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2 | 2 | 1 |
| 5 | Prentis Busnes a Gweinyddiaeth | Cefnogaeth Gorfforaethol | 3 | 2 | 1 |
| 6 | Prentis Maes Anableddau Dysgu – Preswyl | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3 | 2 | 1 |
| 7 | Prentis Maes Anableddau Dysgu – Cefnogol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 5 | 2 | 1 |
| 8 | Prentis Peirianneg Sifil | YGC | 3 | 2 | 1 |
| 9 | Prentis Gradd Ddigidol | Cyllid | 6 | 3 | 1 |
| 10 | Prentis Trydanwr Golau Stryd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3 | 3 | 2 |
| 11 | Prentis Peirianneg Sifil | NMWTRA | 3 | 2 | 2 |
| 12 | Prentis Busnes ac Ansawdd | NMWTRA | 3 | 3 | 1 |
| 13 | Prentis Gradd Diogelwch Seibr | NMWTRA | 6 | 3 | 1 |
| 14 | Prentis Peirianneg Sifil | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3 | 2 | 1 |
| 15 | Prentis Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol | Byw'n Iach | 3 | 2 | 1 |

# ATODIAD 3 – Graddfa Prentis Cyngor Gwynedd 2021/22

Prentisiaethau
Apprenticeships
Cyngor GWYNEDD Council

| Oed y Prentis | Tal yr awr | Cyflog Blynyddol i'r Unigolyn | Cyfraniad Pensiwn Blynyddol | Cyfraniad NI Blynyddol | Cyfanswm Cost Flynyddol i'r Cyngor | Cyfanswm Cost Cytundeb 2 flynedd | Cyfanswm Cost Cytundeb 3 flynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 – 18 | £4.62 | £8,913.27 | £1,818.31 | Dim Talu NI | £10,731.58 | £21,463.16 | £32,194.74 |
| 18 – 20 | £6.56 | £12,656.08 | £2,581.84 | Dim Talu NI | £15,237.92 | £30,475.84 | £45,713.76 |
| 21 – 22 | £8.36 | £16,128.78 | £3,290.27 | £1,005.85 | £20,424.90 | £40,849.80 | £61,274.70 |
| 23+ | £8.91 | £17,189.88 | £3,506.74 | £1,152.28 | £21,848.90 | £43,697.80 | £65,546.70 |

Mae'r raddfa uchod yn gyfwerth â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

## ATODIAD 4 – Rheolwyr / Arbenigwyr Yfory ers 2017

Nifer o Hyfforddeion - 14

| Enw a Swydd | Adran / Gwasanaeth | Cyfnod | Cymhwyster(au) | Sefyllfa |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddai Rheoli | Corfforaethol | 2017 – 2019 | Diploma CMI Lefel 7 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol<br>Prifysgol | Mewn swydd<br>Arweinydd Trawsffurfio Iechyd a Gofal (Gorllewin)<br>Adran Oedolion |
| Hyfforddai Rheoli | Corfforaethol | 2017 – 2019 | Diploma CMI Lefel 7 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol<br>Prifysgol Bangor | Mewn swydd<br>Cymhorthydd Technegol<br>YGC |
| Hyfforddai Rheoli | Corfforaethol | 2018 – 2021 | Diploma CMI Lefel 7 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol<br>Prifysgol Bangor | Ar secondiad<br>Uwch Swyddog Prosiect<br>Ol-16<br>Adran Addysg |
| Hyfforddai Rheoli | Corfforaethol | 2018 – 2021 | Diploma CMI Lefel 7 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol<br>Prifysgol Bangor | Mewn swydd<br>Swyddog Data Gwastraff/ Ailgylchu |
| Hyfforddai Caffael | Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Caffael | 2018 - 2020 | Diploma CIPS Lefel 4, 5 a 6<br>Grwp Llandrillo | Mewn swydd<br>Arbenigwr Categori Corfforaethol |
| Hyfforddai Gwybodaeth | Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Ymchwil a Gwybodaeth | 2018 - 2021 | Cyfraith ac Ymarfer Hawliau Gwybodaeth<br>(LLM) – Gradd Meistr<br>Prifysgol Northumbria | Ar y cynllun |
| Hyfforddai Nyrs | Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Iechyd, diogelwch a Lles | 2019 - 2021 | Diploma Nyrs Iechyd Galwedigaethol<br>Prifysgol Birmingham | Mewn swydd<br>Nyrs Iechyd Galwedigaethol |
| Hyfforddai Cofrestru | Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Cyswllt Cwsmer a Chofrestru | 2019 - 2021 | NAP<br>Rhaglen wedi'i achredu yn genedlaethol ar gyfer Swyddogion Cofrestru | Ar y cynllun<br>Cytundeb wedi ymestyn i 2022 |
| Hyfforddai Llesiant | Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>Anableddau Dysgu | 2019 - 2022 | Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Cyhoeddus(MPA)<br>Prifysgol Birmingham | Ar y cynllun |
| Hyfforddai Cyllid | Cyllid | 2019 - 2022 | CIPFA<br>Lefel 7 | Ar y cynllun |
| Hyfforddai Iechyd, Diogelwch a Llesiant | Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Iechyd a Diogelwch | 2020 - 2022 | NEBOSH<br>Iechyd a Diogelwch | Ar y cynllun<br><br>Wedi derbyn swydd newydd |
| Hyfforddai Rheolaeth Cefn Gwlad | Amgylchedd<br>Traffig a Phrosiectau | 2020-2023 | MSc Rheoli Bywyd Gwyllt a Chadwraeth<br>Prifysgol Glasgow | Ar y cynllun |
| Hyfforddai Syrfëwr Diogelwch Eiddo | Tai ac Eiddo<br>Diogelwch Eiddo | 2020-2023 | MSc Archwilio Adeiladau Masnachol<br>John Moores | Ar y cynllun |
| Hyfforddai Cyfreithiol | Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol<br>Gwasanaeth Gyfreithiol | 2020 - 2022 | Cwrs Sgiliau Proffesiynol<br>Prifysgol y Gyfraith | Ar y cynllun |

## ATODIAD 5 – Cost Cyflogi Rheolwr Neu Arbenigwr Yfory (2020/21)

| GRADDFA | S2 | PENSIWN | NI | CYFANSWM BLYNYDDOL |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 1** | £24,982.00 | £5,595.97 | £2,023.54 | £32,601.51 |
| **Blwyddyn 2** | £25,481.00 | £5,707.74 | £2,063.96 | £33,252.71 |
| **Blwyddyn 3** | £25,991.00 | £5,821.98 | £2,105.27 | £33,918.26 |